



Mynychwyr (drwy gysylltiad fideo):

David B Jones (Cadeirydd), Philip Blaker, Isabel Nisbet, Jayne Woods, Claire Morgan.

Yn Bresennol (drwy gysylltiad fideo):

Jo Richards (JR), Kay Powell (KP),

Ymddiheuriadau:

Alison Standfast (AS)

1. Croeso, Ymddiheuriadau, Datganiadau o Fuddiant, Papurau i'w Nodi

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant newydd. Nid oedd unrhyw gamau heb eu cymryd

2. Cofnodion

2.1. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod ar 6 Mai fel cofnod cywir o'r cyfarfod blaenorol.

3. Diweddariad Cyffredinol

3.1. Rhoddodd PB ddiweddariad ar Gyfres Haf 2020.

3.2. Adroddodd fod yr ymgynghoriad ar y trefniadau ar gyfer Cyfres Arholiadau Haf 2020 wedi dod i ben a bod y canfyddiadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd ac y rhoddid ystyriaeth i'r trefniadau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad.

3.3. Amlinellodd y prif faterion a oedd wedi codi. Y rhain oedd:

- trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat;
- a ellid ystyried gwybodaeth ansoddol oddi wrth ganolfannau yn y model (e.e. gwelliant diweddar mewn ysgolion);
- Gallu'r dysgwr i apelio yn erbyn graddau asesu canolfannau a hawl yr unigolyn i apelio.

3.4 Adroddodd JR fod papur opsiynau mewnol wedi'i ysgrifennu ar ymgeiswyr preifat a bod cyngor cyfreithiol hefyd yn cael ei gymryd ar hyn.

3.5 Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan y grŵp ar y materion hyn.

- 3.6 Gofynnodd IN a oedd y dull ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn gyson â'r dull o ymdrin â Chymwysterau Galwedigaethol ac a oedd cyfiawnhad dros unrhyw wahaniaethau. Ymatebodd PB fod gwahaniaethau eisoes o ran y ffaith y byddai cyfres arholiadau'r Hydref yn cael ei chynnal ar gyfer rhai Cymwysterau Galwedigaethol ond ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol ni fyddai hyn yn ymarferol. Esboniodd y byddai'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad ar beidio â chynnig cyfres arholiadau'r Hydref ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn cael ei dogfennu'n llawn.
- 3.7 Adroddodd PB fod newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio Cymwysterau Cyffredinol yn cael eu gwneud i ganiatáu ar gyfer dyfarnu ar gyfer cyfres Haf 2020. Esboniodd y byddai rhai o'r newidiadau yn wahanol i Ofqual, ond bod ystyriaeth yn cael ei rhoi ynglŷn â'r ffordd orau o reoli cymwysterau dynodedig a ddarperir yng Nghymru a Lloegr er mwyn osgoi unrhyw ddryswch.
- 3.8 Pwysleisiodd IN bwysigrwydd cadarnhau rhwng cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol er mwyn sicrhau bod modd cyfiawnhau unrhyw wahaniaethau rhwng hawliau ymgeiswyr preifat a hawliau apelio.
- 3.9 Adroddodd PB fod gwaith parhaus i edrych ar y gydberthynas rhwng profion cenedlaethol a data asesu athrawon a chanlyniadau TGAU yng Nghymru yn dangos cydberthynas uchel o 0.89 ar gyfer Cymru. Roedd hyn yn gydberthynas gref ac yn creu achos cryf dros ddefnyddio'r data hwn fel mesur o gyrhaeddiad blaenorol. Esboniodd fod y data hwn yn dod i ben yng nghyfnod allweddol 3 fel y gallai ysgolion honni bod gwelliant wedi digwydd yn ystod dwy flynedd cyfnod allweddol 4 ond mai prin fyddai'r data tystiolaethol dibynadwy i gefnogi hyn.
- 3.10 Gwahoddodd PB sylwadau gan y grŵp ar sefyllfaoedd lle gallai fod gwahaniaeth mawr rhwng graddau a aseswyd mewn canolfannau a graddau wedi'u cyfrifo ar gyfer rhai canolfannau (e.e. drwy ragfarn optimistaeth, oherwydd carfan gryfach, newidiadau mewn prifathrawiaeth). Gwahoddodd safbwyntiau ar sut y gellid ystyried gwybodaeth ansoddol a chan bwy, pa wybodaeth y gellid ei cheisio ac ar ba adeg yn y broses y gellid ystyried y wybodaeth hon. Esboniodd mai'r heriau posibl oedd y gallai'r system gael ei llethu ac nad oedd mecanwaith cyson lle gellid cyflwyno'r wybodaeth ansoddol. Esboniodd ymhellach fod Ofqual eisoes wedi gwneud y penderfyniad yn Lloegr na fyddai "llwybr" ("trajectory") canolfannau yn cael ei ystyried eleni.
- 3.11 Dywedodd y Cadeirydd fod perygl y gallai mecanwaith ar gyfer ystyried gwybodaeth ansoddol achosi annhegwch mewn ffyrdd eraill.
- 3.12 Dywedodd IN fod safbwynt Ofqual yn gyson ond gofynnodd a oedd yn iawn gwrthod unrhyw ystyriaeth o dystiolaeth a phwysleisiodd y gwahaniaeth rhwng tystiolaeth a data. Esboniodd mai'r ddau ddewis fyddai cael mecanwaith i ystyried tystiolaeth gydag ystod gyfyngedig o hyblygrwydd a fyddai'n defnyddio llawer o adnoddau neu ddilyn dull Ofqual a pheidio â'i hystyried.

- 3.13 Nododd PB fod dau ddewis o ran pryd i ystyried tystiolaeth. Byddai un ym mis Gorffennaf pan oedd CBAC yn gallu nodi canolfannau lle'r oedd gwahaniaethau mawr mewn graddau a aseswyd ac a gyfrifwyd gan y ganolfan i ofyn i ganolfannau roi rhesymau dros y gwahaniaethau (byddai hyn yn gofyn defnyddio llawer o adnoddau), yr opsiwn arall fyddai fel rhan o'r broses apelio (ar ôl canlyniadau). Yna, byddai perygl hefyd y byddai'r broses apelio'n cael ei llethu.
- 3.14 Adroddodd JR fod Ofqual yn ystyried llwybr apelio ar sail newidiadau demograffeg mewn canolfannau (e.e. ysgol fechgyn yn newid i ysgol gymysg) ac roedd Cymwysterau Cymru mewn cysylltiad â nhw ar gynnydd yr ystyriaethau hynny.
- 3.15 Dywedodd JW fod dull Ofqual yn gyson ond cytunodd â phwynt IN y byddai'n dda ystyried y rhai a allai ddarparu tystiolaeth. Dywedodd y byddai edrych ar achosion demograffig yn unig yn benodol iawn ac efallai na fyddai'n gweithio cystal yng Nghymru o bosib.
- 3.16 Dywedodd IN y gallai ystyriaeth yn ystod y cam apelio achosi mwy o ddifrod o ran hyder dysgwyr ac y byddai'n well ystyried tystiolaeth cyn y canlyniadau pe bai hyn yn bosibl ond cydnabu y byddai hyn yn defnyddio llawer o adnoddau.
- 3.17 Dywedodd PB fod cymhlethdod gweithredol pellach o ran pa radd i'w dyfarnu pe canfyddid bod y wybodaeth ansoddol yn cefnogi graddau uwch na'r rhai a gyfrifwyd: pe bai'n rhoi blaenoriaeth i radd asesu'r ganolfan neu'n nodi rhyw bwynt rhwng y graddau a gyfrifwyd a'r graddau a aseswyd gan y ganolfan.
- 3.18 Ymunodd CM â'r cyfarfod. Dywedodd y byddai'n fuddiol edrych ar wahanol atebion a gweithio'n ôl ohonynt gan ystyried pam nad oeddent yn bosibl. Ymatebodd PB y byddai'r dull hwn hefyd yn dangos "rhesymoldeb" a fyddai'n ystyriaeth mewn unrhyw adolygiad barnwrol.
- 3.19 Crynhodd y Cadeirydd y trafodaethau a chydabu fod heriau gwirioneddol wrth ystyried y mater hwn ac mai rôl y grŵp oedd cefnogi'r weithrediaeth i lywio'r cynigion a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w hystyried yn ei gyfarfod nesaf.

4. Cynllunio ar gyfer Diwrnod y Canlyniadau

- 4.1. Adroddodd PB y byddai angen gwneud penderfyniad ddechrau mis Gorffennaf am y modelau i'w defnyddio ar gyfer safoni a bod trafodaethau'n cael eu cynnal am y trefniadau llywodraethu ynghylch y penderfyniad hwnnw.
- 4.2. Esboniodd wedyn fod angen ystyried pryd y dylid cyhoeddi gwybodaeth am y model a ddewiswyd, fel y gallai rhanddeiliaid â buddiant ddeall sut y byddai data'n cael ei ddefnyddio wrth bennu graddau wedi'u cyfrifo. Esboniodd ei fod ar ddeall

fod y rheoleiddwyr eraill yn bwriadu cyhoeddi gwybodaeth am Ddiwrnodau Canlyniadau.

- 4.3. Gofynnodd am adborth gan y grŵp ynghylch a ddylai Cymwysterau Cymru ryddhau'r wybodaeth hon yn gynharach ym mis Gorffennaf ochr yn ochr â dadansoddiad lefel uchel cyntaf o raddau asesu canolfannau. Byddai hyn yn rheoli disgwyliadau pe bai graddau asesu canolfannau'n wahanol iawn i'r graddau a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Esboniodd mai'r gwrth-ddadl i hynny oedd y gallai rhyddhau'r wybodaeth hon cyn diwrnod y canlyniadau achosi mwy o bryder ymysg dysgwyr cyn i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi.
- 4.4. Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad ynghylch pa lefel o wybodaeth fyddai'n cael ei rhyddhau pe bai'n cael ei rhyddhau cyn Diwrnod y Canlyniadau. Eglurodd JR y byddai angen iddo fod ar lefel pwnc.
- 4.5. Dywedodd JR y byddai angen i'r negeseuon fod yn glir y byddai'r broses safoni yn cael ei defnyddio fesul canolfan.
- 4.6. Dywedodd IN y gallai rhyddhau gwybodaeth yng nghanol y broses achosi stori newyddion yn seiliedig ar wybodaeth rannol a allai'n hawdd godi braw, tra dylai rhyddhau'r wybodaeth ar Ddiwrnod y Canlyniadau dawelu meddyliau pan fo graddau'n ymddangos yn fras yn ôl y disgwyl.
- 4.7. Dywedodd CM ei bod o blaid rhyddhau gwybodaeth cyn gynted â phosibl hyd yn oed os oedd yn dechnegol ynghylch sut y byddai gwaith yn cael ei farcio fel egwyddor gyffredinol, ond roedd yn rhaid cydbwysu hyn â'r perygl o ryddhau gwybodaeth yn rhy gynnar a bod hyn yn cael ei weld yn negyddol.
- 4.8. Awgrymodd PB y syniad o ryddhau gwybodaeth am y model a'i roi yn ei gyd-destun ond peidio â rhyddhau gwybodaeth am raddau asesu canolfannau. Cytunodd CM y byddai'r cynnig hwn yn rhoi sicrwydd technegol a thryloywder i'r model ond na fyddai'n negyddol.
- 4.9. Dywedodd JW ei bod yn well ganddi ryddhau'r wybodaeth yn gynharach ar y cyfan ac os oedd y cyfathrebu'n iawn, byddai'r neges yn cael ei chlywed gan y canolfannau hynny a allai fod wedi goramcangyfrif graddau fel y dylent ddisgwyl gostyngiadau.
- 4.10. Esboniodd PB y byddai unrhyw benderfyniad ar y mater hwn yn cael ei gynnwys yn y papur i'w gyflwyno i'r Bwrdd pan fyddai penderfyniad ar y model yn cael ei geisio.

5. Diweddariad Cyfathrebu

- 5.1. Adroddodd PB mai prin oedd y gweithgarwch a gafwyd ar y cyfryngau cymdeithasol ar Gyfres Haf 2020 ac o ran ymholiadau a ddaeth i mewn ar gyfer Cymwysterau Cymru.

Dyweddod hefyd fod y Pwyllgor Deisebau wedi cymryd diddordeb yn y penderfyniad ynghylch Safon UG. Roedd cwyn am y penderfyniad am gymwysterau Safon UG a godwyd gan un set o rieni a dysgwr hefyd wedi cael rhywfaint o sylw.

- 5.2. Adroddodd PB nad oedd dewis amgen dibynadwy i bennu marc UG eleni ond ar gyfer haf 2021 roedd gwaith cynnar yn ymchwilio i gywirdeb pennu marc UG o'r marc A2 yn dangos canlyniadau dibynadwy.

6. Unrhyw Fater Arall

- 6.1 Amlinellodd PB y cyfarfodydd sydd ar y gweill ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgor Rheoleiddio (cyfarfod Bwrdd ar 16 Mehefin a'r Pwyllgor Rheoleiddio ar 18 Mehefin). Yna byddai angen trefnu cyfarfod Bwrdd ddechrau mis Gorffennaf i gytuno ar y modelau safoni. Awgrymodd gyfarfod Grŵp Gorchwyl a Gorffen cyn cyfarfod bwrdd mis Gorffennaf i edrych ar bapur drafft ar y penderfyniad enghreifftiol i sicrhau y byddai'n hygyrch i aelodau'r Bwrdd i'w galluogi i wneud penderfyniad.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Wedi'i neilltuo ar gyfer 12 Mehefin 1200-1300 i'w gadarnhau ar 9 Mehefin